



THE WELSH BEEKEEPERS' ASSOCIATION

CYMDEITHAS GWENYNWYR CYMRU

Established/Sefydlwyd 1943 Registered Charity/Elusen Gofrestredig – No/Rhif 509929

Adroddiad Blynyddol

1 Ionawr 2024 i 31 Rhagfyr 2024

Ymddiriedolwyr:

Cadeirydd
Is-Gadeirydd
Trysorydd
Ysgrifennydd Cyffredinol

Caroline Mullinex (etholwyd CCB 2022)
Karen Pratt (etholwyd CCB 2022 ymddiswyddodd CCB 2024)
Graham Wheeler (ailetholwyd CCB 2024)
Jenny Shaw (ailetholwyd CCB 2023)
Christopher Clarke (ailetholwyd CCB 2021 ymddeolodd CCB 2024)
David John Bowles (ailetholwyd yn Ymddiriedolwr CCB 2023)
Keith Davies (ailetholwyd CCB 2023)
David Grace (etholwyd CCB 2022)
Paul Pearce (etholwyd CCB 2024)
Alan Burford (etholwyd CCB 2024)
Selwyn Runnett (cyfetholwyd 15 Mai 2024))
Ceri Joyner (cyfetholwyd 11 Medi 2024)

Swyddogion:

Llywydd
David John Bowles (etholwyd CCB 2021 ymddeolodd CCB 2024)
Jill Wheeler (etholwyd CCB 2024)
Fred Eckton
Is-lywyddion
Trish Calderbank
Ysgrifennydd Aelodaeth
Tish Calderbank
Ysgrifennydd Cofnodion
swydd wag
Ysgrifennydd Digwyddiadau
Jill Wheeler
Ysgrifennydd Arholiadau
Liz Childerley
Rheolwr y Wefan
Alison Mason (ymddeolodd Ebrill 2024)
Roger Boyle (penodwyd Ebrill 2024)
Basil Wolf
Elin Meek
Chris Clarke
Wally Shaw
John Bowles
Golygydd
Goresgynnol – John Bowles (creu'r swydd yn 2024)
Is-olygydd Cymraeg
John Pilgrim
Prawfddarlennydd
Karen Pratt
Swyddog Technegol
Richard Pett
Swyddog Yswiriant
Sue Taylor (penodwyd Mawrth 2024)
Swyddog Rhywogaethau Estron
Swyddog Iechyd a Diogelwch
Archif CGC
Swyddog IMYB
Swyddog Ysgolion

Aelodau Arbenigol:

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru
BIBBA (Cymdeithas Gwella Gwenyn a Magwyr Gwenyn)

Noddwyr:

Yr Athro Robert Pickard
Master Wax Chandler (CCB 2024)

Mae pob un o ymddiriedolwyr a swyddogion CGC yn rhoi ei amser yn wirfoddol heb dderbyn tâl neu fanteision eraill. Mae CGC yn ddyledus i'r gwirfoddolwyr hyn am eu hewyllys da a'u hymdrechion

parhaus ar ran y Gymdeithas.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried yr arweiniad a gyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ynghylch lles y cyhoedd.

Ein Nodau a'n Hamcanion:

Annog, gwella a hyrwyddo cadw gwenyn ledled Cymru drwy:

- ddatblygu cydweithredu ymysg yr holl wenywyr ledled Cymru a chyfnewid syniadau a phrofiadau,
- gwella safon cadw gwenyn drwy:
 - i. gyhoeddi llenyddiaeth,
 - ii. darparu a rhoi cymorth i ddarparu cymhorthion a deunyddiau addysgol am gadw gwenyn,
 - iii. hybu hyfforddi a chymhwyso gwenynwyr,
- trefnu arholiadau cenedlaethol ar lefelau amrywiol,
- annog y gymuned i gymryd rhan mewn arsylwi a dysgu am wenywyr yn ddiogel, a dod i werthfawrogi gwerth gwenyn yn yr amgylchedd.

Gweinyddu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn y rhestr uchod yn cwrdd fel Tîm Rheoli Cymdeithas Gwenynwyr Cymru. Ceir rhestr lawn o'r cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd y rhan hon o'r adroddiad hwn.

Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr â Chyngor CGC dair gwaith (ym misoedd Mawrth, Mehefin, a Thachwedd) i adrodd ar weithredu'r Tîm Rheoli ac i gael arweiniad gan yr aelodaeth. Cynhaliwyd pob un o'r cyfarfodydd ac eithrio un mis Mawrth yn rhithiol. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn roedd o leiaf 63% (12) o'r Cymdeithasau sy'n Aelodau o CGC wedi'u cynrychioli ac at ei gilydd mynychodd 90% (17) Cymdeithas o leiaf un cyfarfod. Dosbarthwyd cofnodion pob un o gyfarfodydd y Cyngor drwy Ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor ar 8 Mawrth, 28 Mehefin ac 1 Tachwedd yn 2025. Er mwyn lleihau hyd cyfarfodydd y Cyngor, mae adroddiadau'r Swyddogion yn cael eu hysgrifennu a'u cylchredeg cyn y cyfarfod. Mae arweinwyr yr is-bwyllgorau'n cyfeirio at y rhain fel y bo angen yn ystod eu hadroddiadau cryno. Mae cyfle i Gynrychiolwyr y Cyngor i holi cwestiynau ac i roi sylwadau ar yr adroddiadau.

Cafodd y Tîm Rheoli gyfarfod naw gwaith yn ystod 2024 ac er mwyn lleihau'r teithio, roedd pob un o'r cyfarfodydd yn rhai rhithiol. Bydd y Tîm Rheoli'n cwrdd o leiaf bedair gwaith yn 2025, gyda'r cyfarfod cyntaf i fod ar 10 Ionawr. Mae dull a dyddiadau'r cyfarfodydd y Tîm Rheoli'n adlewyrchu argaeledd a chyfeiriadau cartref yr Ymddiriedolwyr er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl yn gallu mynychu a bod cyn lleied o gostau teithio ag sy'n bosibl. Rhwng y cyfarfodydd y Tîm Rheoli sydd wedi'u hamserlennu, cytunwyd ar weithdrefnau er mwyn cael cytundeb yr ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw faterion brys. Cytunwyd ar fformat agenda safonol ac fe'i mabwysiadwyd. Dosbarthwyd cofnodion llawn pob cyfarfod y Tîm Rheoli drwy ysgrifenyddion y Cymdeithasau. Adnewyddwyd trwyddedau'r Gweminarau a'r cyfarfodydd rhithiol ym mis Hydref 2024 a bydd y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Tîm Rheoli'n parhau i gael eu cynnal yn rhithiol fel bod llai o angen teithio. Mae'r trwyddedau ar gyfer cyfarfodydd rhithiol ar gael i Aelod-Gymdeithasau CGC i'w defnyddio ar gyfer eu cyfarfodydd nhw.

Lle mae'n briodol i'w rolau, gwahoddwyd swyddogion CGC nad ydyn nhw'n Ymddiriedolwyr i fynychu cyfarfodydd y Tîm Rheoli yn ystod 2024 er mwyn helpu gyda gwaith yr ymddiriedolwyr.

Mae polisiâu CGC wedi'u diweddarau a'u diwygio lle roedd angen. Mae dogfennau cyfarwyddyd am lechyd a Diogelwch, Diogelu a DBS ar wefan CGC er mwyn rhoi arweiniad i aelod-gymdeithasau ac mae'r rhain yn cysylltu â'r ddeddfwriaeth a'r arweiniad cyfoes sy'n berthnasol yng Nghymru. Mae hyn

er mwyn helpu cymdeithasau i sicrhau bod eu gweithgareddau'n cydymffurfio. Hefyd, cytunwyd ar arweiniad i Swyddogion CGC sy'n rhoi cyflwyniadau neu adroddiadau am CGC i gyrff allanol.

Mynychodd un o Ymddiriedolwyr CGC Weminar Diogelu Data ar 4 Tachwedd wedi'i redeg gan Swyddfa Cymru y Comisiwn Gwybodaeth (ICO). Mae CGC yn parhau i archwilio i'r angen am gofrestru gyda'r ICO er mwyn prosesu data ac ynghylch y ffordd orau i newid ei Pholisi Diogelu Data er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llawn. Rydyn ni'n edrych ar gyrff elusennol eraill er mwyn ceisio gweld beth yw'r arferion gorau ymarferol heb glymu CGC wrth faen melin fiwrocraidd.

Mae CGC wedi gweithio gyda Anaphylaxis UK i helpu i godi ymwybyddiaeth o adwaith alergaidd difrifol i bigiadau gwenyn. Hefyd, mae'r Tîm Rheoli wedi ystyried sut mae'n bosibl annog perchnogion tir i roi gwybod i wenywyr am unrhyw blaleiddiaid y maen nhw'n bwriadu eu defnyddio ar eu tir. Dydy gwenwyno gwenyn mêl gan blaleiddiaid ddim yn ymddangos yn broblem arwyddocaol yng Nghymru. Bydd dogfen ganllawiau yn cael ei rhoi ar wefan CGC yn 2025.

Yn 2023 cafodd adolygiad o strwythur CGC ei gwblhau a'i weithredu. Mae cylch gorchwyl pob is-bwyllgor CGC wedi cael ei adolygu'n rhan o hyn. Nawr, mae'r rhan fwyaf o fusnes bob dydd CGC yn cael ei wneud gan bedwar is-bwyllgor a phob un wedi'i gadeirio gan un o Ymddiriedolwyr CGC ac yn adrodd i'r Tîm Rheoli. Mae rhestr o'r is-bwyllgorau hyn a'u haelodau isod: -

Gweinyddu a Chymorth: Cadeirydd – John Bowles (Ymddiriedolwr a Swyddog Yswiriant a Swyddog Rhywogaethau Estron Goresgynnol), Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr ac Ysgrifennydd Cyffredinol), David Grace (Ymddiriedolwr a Swyddog Diogelu), Paul Pearce (Ymddiriedolwr), Trish Calderbank (Ysgrifennydd Aelodaeth ac ysgrifennydd cofnodion i'r is-bwyllgor), John Pilgrim (Swyddog Iechyd a Diogelwch), Keith Davies (Ymddiriedolwr).

Dysgu a Datblygiad: Cadeirydd – Paul Pearce (Ymddiriedolwr) (Caroline Mullinex (Ymddiriedolwr tan fis Mehefin), Jenny Shaw (Ymddiriedolwr ac ysgrifennydd dros dro i'r is-bwyllgor), Ceri Joyner (Ymddiriedolwr), Liz Childerley (Ysgrifennydd Arholiadau), Sue Taylor (Swyddog Ysgolion), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Roger Boyle (Gwefeistr), Lynfa Davies, Trisha Marlow.

Digwyddiadau: Cadeirydd – Alan Burford (Ymddiriedolwr), Graham Wheeler (Ymddiriedolwr a Thrysorydd), Keith Davies (Ymddiriedolwr), Jill Wheeler (Ysgrifennydd Digwyddiadau), Vicky Davies, Martin Anderson, Steve Bromwich.

Golygyddol: Cadeirydd – Jenny Shaw (Ymddiriedolwr), Caroline Mullinex (Ymddiriedolwr), Selwyn Runnett (Ymddiriedolwr) Chris Clarke (prawf ddarllenydd), Basil Wolf (Golygydd), Sue Taylor (Swyddog Ysgolion), Elin Meek (Golygydd Cymraeg), Wally Shaw (Swyddog Technegol), Jill Hill (ysgrifennydd i'r is-bwyllgor), Jill Wheeler.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith pob is-bwyllgor yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn ac mae eu cylch gorchwyl ar wefan CGC.

Yswiriant: Mae sicrwydd Yswiriant CGC yn seiliedig ar sawl amod, gan gynnwys yr angen am dalu ffioedd y pen yn brydlon a bod y rhai sy'n dod o dan y polisi yn cael eu cofnodi'n unigol ar system aelodaeth eR2. Mae'r Cymdeithasau i fod i dalu ffioedd y pen erbyn 1 Ionawr bob blwyddyn, ond rhoddir lwfans, dim ond i'r holl arian dyledus gael ei dderbyn erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn honno. Atgoffir Aelod-Gymdeithasau fod angen i'r taliad gael ei wneud yn brydlon. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Yswiriant ac Iechyd a Diogelwch yn nes ymlaen yn y ddogfen hon.

Yn dilyn cais gan Gyngor CGC, adolygwyd a diwygiwyd categorïau aelodaeth CGC yn 2022 er mwyn sicrhau bod pob un o Aelodau Anuniongyrchol CGC wedi'u cynnwys o dan ein polisi yswiriant. Mae'n bleser gennym adrodd bod ein hyswiriant bellach yn cynnwys gwenynwyr o dan 18 oed.

Cronfeydd wrth Gefn: Mae'r polisi Cronfeydd Wrth Gefn yn dweud y bydd yr Elusen (CGC) yn cadw cronfa wrth gefn o £10,000 i £13,000. Mae angen y gronfa wrth gefn hon yn ôl y Gyfraith Elusennau i dalu am gostau gweithredol a chytundebol petai'r angen yn codi. Caiff y polisi hwn ei fonitro a'i ddiweddarau'n flynyddol.

Defnyddir yr arian yng nghyfrif cyfredol HSBC nid yn unig i dalu am gostau rhedeg y Gymdeithas ond i ariannu amryw o brosiectau fel rhedeg gweithdai/cyrsiau a lledaenu gwybodaeth, drwy amryw o ddulliau fel y wefan, llyfrynnau a chyhoeddiadau eraill. Mae adroddiad ariannol manwl yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Llywodraethiant: Yng Nghyfarfod Cyffredinol 2024, ymddeolodd John Bowles fel Llywydd CGC a phenodwyd Jill Wheeler i'r rôl. Ymddeolodd Chris Clarke ac ymddiswyddodd Karen Pratt fel ymddiriedolwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2024. Cyfetholodd y Tîm Rheoli ddau ymddiriedolwr newydd, Selwyn Runnett (Mai 2023) a Ceri Joyner (Mehefin 2023). Bydd y penodiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r aelodaeth i'w cadarnhau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2025 ar 8 Mawrth. Cymerodd Cadeirydd CGC a benodwyd, Caroline Mullinex, absenoldeb tosturiol o'r rôl ym mis Mehefin 2024 oherwydd salwch teuluol ac yna profedigaeth. Ymgwymerodd ymddiriedolwyr â rolau ychwanegol yn ystod absenoldeb Caroline – cadeiriodd Selwyn Runnett y Tîm Rheoli, cadeiriodd Alan Burford gyfarfodydd y Cyngor, cadeiriodd Paul Pearce yr is-bwyllgor Dysgu a Datblygiad a llwyfannodd John Bowles weminarau.

Ar hyn o bryd, mae gennym y nifer llawn, sef deg ymddiriedolwr CGC, ond mae Caroline Mullinex yn dal i fod ar absenoldeb tosturiol.

Penodwyd Master of the Worshipful Company of Wax Chandlers yn noddwr CGC yng nghyfarfod cyffredinol 2024.

Yn y CCB ym mis Mawrth 2024, ymddeolodd Alison Mason fel gwfeistr CGC ac ymgwymerodd Roger Boyle â'r rôl. Rydym yn diolch iddyn nhw i gyd am eu gwaith ar ran gwenyna yng Nghymru. Llenwodd Sue Taylor swydd y Swyddog Ysgolion (Mawrth 2024). Mae gan bob Swyddog CGC ddisgrifiadau swydd eglur ac wedi'u diweddarau erbyn hyn ac mae'r Tîm Rheoli hefyd yn parhau i edrych ar gynlluniau dros dro ar gyfer swyddi allweddol os yw swyddog yn ymddiswyddo neu'n methu gwneud y gwaith am gyfnod o amser. Cydnabyddir nad yw dod o hyd i wirfoddolwyr i ymgymryd â rolau gwirfoddol yn dasg hawdd.

Mae gwaith wedi dechrau i ddiffinio'r strategaethau sydd eu hangen i gyflawni amcanion CGC fel bod modd mesur perfformiad.

Heb newid, derbyniwyd Cyfansoddiad CGC gan yr aelodaeth yng Nghyfarfod Blynyddol CGC yn 2024. Yn ystod 2024 bu'r Ymddiriedolwyr yn ystyried y cam o droi CGC yn Gymdeithas Elusennol wedi'i Hymgorffori (Charitable Incorporated Association, CIO). Gan nad yw CGC yn cyflogi unrhyw staff sy'n cael eu talu na chwaith yn berchen ar adeiladau neu dir, penderfynwyd nad oedd angen y newid hwn ar hyn o bryd. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei adolygu petai amgylchiadau CGC newid yn y dyfodol.

Aelodaeth: Mae gan CGC bedair ar bymtheg o Aelod-Gymdeithasau sy'n cynrychioli 2084 o Aelodau Cofrestredig, 332 o Aelodau Partner, 4 Aelod Gwlad a 38 o Aelodau Iau a dau grŵp o Aelodau Arbenigol. Fel rhan o'r aelodaeth y pen a godir ar bob Aelod-Gymdeithas, mae'r aelodau Anuniongyrchol yn elwa drwy dderbyn pedwar rhifyn o *Gwenynwyr Cymru* ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch trydydd parti. Ar hyn o bryd mae 33 Aelod Unigol ac 8 Aelod Anrhydeddus o Gymdeithas Gwenynwyr Cymru. Mae dadansoddiad manwl o'r aelodaeth yn dod gyda'r adroddiad hwn.

Rydyn ni'n dal i weithio gyda Llywodraeth Cymru. Mae Kathleen Carroll (Llywodraeth Cymru) a Daniel Baxter (Gwasanaeth Archwilio Gwenyn) wedi mynychu o leiaf un cyfarfod o Gyngor CGC yn 2024 er mwyn cynghori.

Yn dilyn ymholiadau gan Aelod-Gymdeithasau, adolygodd Cyngor CGC categorïau aelodaeth CGC er mwyn sicrhau eu bod nhw'n bodloni eu gofynion. Nawr mae'n ofyniad mai un enw'n unig sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob cofnod yn eR2 ac mai'r person hwnnw a enwir yn unig fydd yn gymwys i ddod o dan yswiriant CGC. Mae partneriaid sy'n byw yn yr un cyfeiriad ag aelod wedi'i gofrestru ac sy'n rheoli'r un gwenyn wedi'u hyswiro os ydyn nhw wedi'u cofnodi'n unigol yn system eR2. Hefyd, dylai aelodau iau o dan 18 oed gael eu rhestru ar wahân yn eR2. Aelodau iau a enwir yn unig fydd yn cael eu hystyried i gynrychioli CGC yng Nghyfarfod Rhyngwladol y Gwenynwyr Ifanc. O fis Ionawr 2024 roedd gofyn i aelodau partner CGC dalu aelodaeth flynyddol y pen o £6 a chododd y ffi i aelodau cofrestredig i £12 y flwyddyn. Y cynnydd hwn oedd y cyntaf mewn dros 10 mlynedd ac roedd yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd bresennol.

Defnyddir aelodau gwlad i bob heb welyn sy'n dymuno bod yn Aelodau Anuniongyrchol o CGC ac eto dylen nhw ymddangos fel cofnodion unigol yn eR2. Y categori aelodaeth olaf yw Aelodau Lleol a ddylai ymddangos eto yn eR2 fel cofnodion unigol. Does gan Aelodau Lleol ddim gwenyn ac maen nhw'n aelodau o'r Aelodau Gymdeithas ond dydyn nhw ddim yn aelodau Anuniongyrchol o CGC a does dim hawl ganddyn nhw i unrhyw fanteision sy'n dod o fod yn aelod o CGC. Mae mwyafrif Aelod-Gymdeithasau CGC bellach yn defnyddio gwasanaeth aelodaeth eR2 a daliodd Trish Calderbank, Ysgrifennydd Aelodaeth CGC ati i ddarparu hyfforddiant i ddefnyddwyr. Hoffem ddiolch i Trish am ei gwaith caled parhaus yn cynorthwyo Cymdeithasau. Mae Kerry Cox wedi cefnogi Trish Calderbank yn ei rôl o gynorthwyo cymdeithasau CGC i ddefnyddio eR2. Mae CGC yn parhau i weithio gyda BDI i sicrhau bod system eR2 yn diwallu gofynion Cymdeithasau yng Nghymru.

Gwefan: Mae'r wefan, a lansiwyd yn 2022, yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ac mae data dadansoddi diweddar yn dangos cynnydd yn nifer yr ymwelwyr i'r safle. Mae'r wefan yn adlewyrchu polisi iaith CGC. Rydym ni'n diolch i Roger Boyle am ei waith yn datblygu ac yn cynnal a chadw ein gwefan.

Cylchgrawn Gwenynwyr Cymru: Llwyddwyd i gyhoeddi pob un o'r pedwar rhifyn chwarterol yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch i'n Golygydd, Basil Wolf, am ei ymroddiad i gynhyrchu'r cylchgrawn. Hefyd, rydym yn ddiolchgar i'r llu o aelodau CGC sydd wedi rhoi erthyglau a ffotograffau i'r cylchgrawn. Mae'n bosibl lawrlwytho pedwar copi diweddaraf y cylchgrawn o wefan CGC ac mae rhifynnau electronig blaenorol ar gael gan yr archifydd, Karen Pratt, fel ffeiliau electronig archivist@wbka.com.

Cyhoeddiadau: Mae'n bosibl i Gynrychiolwyr Cymdeithasau gasglu copiâu wedi'i hargraffu o bob un o'r llyfrynnau a'r cardiau clefydau a gyhoeddwyd gan CGC, a hynny yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Mawrth neu mae'n bosibl eu harchebu ymlaen llaw yng Nghynulliad Blynyddol CGC ddiwedd mis Mawrth. Bydd cyflenwadau'n cael eu hanfon at gymdeithasau os ydyn nhw'n cytuno i dalu am y costau sy'n codi.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi gweithio gyda nifer o asiantaethau allanol yn ystod 2024 i sicrhau bod gwenynwyr Cymru yn cael gwybodaeth lawn ac yn cael eu cefnogi ar lefel Cymru, y DU ac Ewrop. Rhoddir rhestr o'r cyfarfodydd allanol a fynychwyd gan CGC yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn (Y DU): Mae'r Bee Health Advisory Forum (BHAf) yn gyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth y DU lle mae cynrychiolwyr o bob Cymdeithas Wenynd yn Nghymru a Lloegr, yn ogystal â NBU, APHA, Llywodraeth Cymru, Cyfarwyddiaeth Meddyginiaethau

Milfeddygol, ac ati. Mae'n cynnig cyfle i drafod a dylanwadu ar faterion cyfredol ac arfaethedig a all fygwth lles ein gwenyn. Mae'r eitemau a drafodwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio wedi'u cynnwys yn fwy manwl mewn adroddiad ar wahân.

Fforwm Peillwyr Cymru: Fforwm o dan nawdd Llywodraeth Cymru yw hwn sy'n dod ag amrywiaeth o grwpiau ynghyd sy'n cynrychioli mudiadau sydd â diddordeb mewn diogelu'r amgylchedd gwyllt a gwella rheoli tir er lles peillwyr o bob math, yn amrywio o ieir bach yr haf, pryfed hofran i gacwn a gwenyn mêl. Rydym ni'n credu y bydd beth bynnag sy'n dylanwadu ar y dirwedd gorfforol a rheolaeth y tir i unrhyw beilliwr, ac yn ei wella, hefyd o fudd i wenyn mêl.

CONBA (Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol): Mae Cymdeithasau Gwenyna Cymru, Lloegr, yr Alban ac Ulster yn ogystal â Chymdeithas Ffermwyr Gwenyn (Bee Farmers Association) gyda'i gilydd yn ffurfio CONBA (Council of National Beekeeping Associations) sy'n cefnogi buddiannau pob gwenynwr a gwenyna yn y DU. Mae Ffederasiwn Gwenynwyr Iwerddon, sy'n cynrychioli gwenynwyr yn Iwerddon, yn mynychu cyfarfodydd CONBA hefyd. Mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu strategaethau ar y cyd i ymdrin ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys cynlluniau'r llywodraeth.

Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (RWAS): Fe'i sefydlwyd yn gyntaf yn 1904 ac yna fel Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru yn Llanelwedd yn 1963 gan gynnwys y Sioe Fêl y mae CGC yn cynnig cymorth a chefnogaeth.

Sioe Fêl Genedlaethol (y DU) / National (UK) Honey Show (NHS): Yn 2022 daeth CGC yn aelod o'r Sioe Fêl Genedlaethol, sef y corff sy'n trefnu ac yn rhedeg Sioe Fêl flynyddol y DU sy'n agored i bob gwenynwr gymryd rhan ynddi. Mae'r NHS yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'i aelodau ar y cyd â'r Sioe Fêl.

NDB (Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna): Mae CGC yn cael ei chynrychioli yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y corff sy'n rheoli ac yn dyfarnu'r cymhwyster 'lefel gradd' mewn gwenyna yn ogystal â rhedeg nifer o gyrsiau byr i addysgu gwenynwyr yn y DU.

Cyfarfodydd a Fynychwyd yn 2024

Cyfarfodydd Mewnol CGC yn 2024:

16 Ionawr	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol
10 Ionawr	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
26 Ionawr	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
20 Chwefror	Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol
2 Mawrth	CCB a Chyfarfod y Cyngor, Plas Dolerw: wyneb yn wyneb ac yn rhithiol ar y cyd
12 Mawrth	Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol
20 Mawrth	Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol
23 Mawrth	Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb
9 Ebrill	Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol
16 Ebrill	Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol

20 Ebrill Y Tîm Golygyddol: rhithiol

26 Ebrill Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

15 Mai Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

17 Mai Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb

14 Mehefin Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

29 Mehefin Cyfarfod y Cyngor: rhithiol

8 Gorffennaf Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol

9 Gorffennaf Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol

16 Gorffennaf Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol

17 Gorffennaf Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

21 Gorffennaf Pwyllgor Digwyddiadau: wyneb yn wyneb

2 Mawrth Tîm y Gacynen Felyngoes: rhithiol

3 Medi Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol

10 Medi Y Tîm Golygyddol: rhithiol

11 Medi Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

15 Hydref Pwyllgor Dysgu a Datblygu: rhithiol

2 Tachwedd Cyfarfodydd y Cyngor: rhithiol

12 Tachwedd Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth: rhithiol

20 Tachwedd Y Tîm Rheoli (Ymddiriedolwyr): rhithiol

3 Rhagfyr Y Tîm Golygyddol: rhithiol

Cynrychiolaeth CGC mewn Cyfarfodydd Allanol yn 2024:

Jenny Shaw (J.S.), John Bowles (J.B.), Wally Shaw (W.S.), Keith Davies (K.D.), Alan Burford (A.B.)
Paul Pearce (P.P)

21 Chwefror Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (K.D. a J.S.)

7 Mawrth Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (W.S. a J.B.)

26 Mawrth Cyngor Cymdeithasau Gwenynna Cenedlaethol: rhithiol (J.S. a J.B.)

11 Ebrill Cyngor Cymdeithasau Gwenynna Cenedlaethol: rhithiol (J.S. a J.B.)

6 Mehefin Cyngor Cymdeithasau Gwenynna Cenedlaethol: rhithiol (J.S. a J.B.)

26 Mehefin Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (J.B. a W.S.)

4 Gorffennaf Gweithlu Peillwyr Llywodraeth Cymru: wyneb yn wyneb (K.D.)

8 Hydref	Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru: Pwyllgor Sioe Fêl: rhithiol (A.B.)
22 Hydref	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: rhithiol (J.B. a W.S.)
23 Hydref	Cyngor Cymdeithasau Gwenyna Cenedlaethol: wyneb yn wyneb a rhithiol (J.S.)
24 Hydref	CCB Sioe Fêl Genedlaethol: wyneb yn wyneb (J.S.)
25 Hydref	CCB Diploma Cenedlaethol mewn Gwenyna wyneb yn wyneb (P.P.)
19 Tachwedd	Gweithlu Peillwyr Llywodraeth Cymru: rhithiol (K.D.)
5 Rhagfyr	Fforwm Ymgynghorol Iechyd Gwenyn: Rhithiol (P.P.)

ADRODDIADAU

Adroddiad Trysorydd CGC, Blwyddyn Ariannol 2024

Cyllideb Diwedd Blwyddyn yn erbyn Cyllideb 2024

Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn oedd bod colled o £2.6k yn erbyn colled wedi'i chyllidebu'n wreiddiol o £5.1k, cyfrannodd nifer o ffactorau at hyn gyda gwariant yn is na'r disgwyl mewn nifer o feysydd yn gwrthbwysio incwm wedi'i chyllidebu a oedd yn is na'r disgwyl.

- £887 oedd y gwariant a gynlluniwyd ar lyfyrnau addysgol yn erbyn cyllideb o £3000.
- Mae costau yswiriant meddalwedd cyffredinol yn cadw at y gyllideb gan gynnwys y trwyddedau GoTo parhaus.
- Roedd y costau hyfforddiant net yn is na'r gyllideb.
- Roedd yr incwm hysbysebu'n is na'r gyllideb a'r flwyddyn flaenorol.
- Roedd incwm y cynulliad yn is na'r gyllideb ond eto'n uwch na'r flwyddyn flaenorol; roedd y costau'n is na'r gyllideb, felly roedd rhywfaint bach o arian dros ben yn gyffredinol ar gyfer y digwyddiad.

Cyllideb 2025

- Mae aelodaeth anuniongyrchol y pen yn codi i £12 (graddfa 2024); ac mae'n seiliedig ar aelodaeth o 2044 o aelodau yn 2024. Yn ogystal, am y tro cyntaf, bydd aelodaeth y pen yn cael ei chodi ar wenywyr gweithredol sy'n byw yn yr un cyfeiriad fel aelodau Cofrestredig (Partneriaid yw'r enw arnyn nhw), am £6.
- Y cynnig yw na fyddwn yn newid ffioedd aelodau unigol.
- Mae prisiau hysbysebu wedi cynyddu 10% gan ddilyn cynigion y Tîm Golygyddol. Mae rhywfaint o berygl y bydd llai o hysbysebion oherwydd ein bod yn gweithredu polisi i beidio â derbyn hysbysebion am wenyw.
- Rhagwelir y bydd incwm y cynulliad yn cwmpo eleni, yn bennaf gan fod cwmp yn nifer y masnachwyr sy'n bwriadu mynychu. Ar hyn o bryd rhagwelir mai cost net y cynulliad fydd tua £1400.
- Mae'r incwm hyfforddiant yn seiliedig ar raglen debyg o ddigwyddiadau i 2024 yn arwain at gostau tebyg; bydd ffioedd gweithdai yn cael eu codi er mwyn targedu cost net cyffredinol o £1500.

- Mae cyllideb o £2k am brosiectau arbennig er mwyn talu am ailargraffu llyfrynnau.
- Rydym wedi darparu ar gyfer costau ychwanegol yn y gyllideb arholiadau i £2.1k yn seiliedig ar drafodaethau sy'n digwydd â BBKA ynghylch darparu arholiadau ac asesiadau ar lefel uwch. Byddai hyn yn arwain at arholiadau'n gyffredinol yn rhedeg gyda chost net o £1500 gyda'r Asesiadau Sylfaenol yn anelu at adennill costau.

Canlyniad wedi'i Ragamcanu

Mae'r gyllideb ddrafft fel mae wedi'i chyflwyno yn rhagweld y bydd ychydig o arian dros ben ar gyfer 2025.

Rhagamcanu Cyllideb 2026 a'r Cynnig Aelodaeth y Pen

Er mwyn llywio'r drafodaeth ynghylch Aelodaeth y Pen ar gyfer 2026, mae rhagamcan ar gyfer 2026 wedi'i gwblhau. Mae incwm y pen yn seiliedig ar gyfraddau 2024 ac aelodaeth 2024. Mae gwariant ar bob prif eitem yn cynyddu 5%. Y canlyniad o ran incwm yw sefyllfa lle rhagwelir adennill costau yn 2026.

Ar sail y rhagamcaniad hwn a'r colledion is na'r disgwyl ar gyfer 2024, argymhellwyd i'r Cyngor ym mis Tachwedd y dylai lefelau anuniongyrchol y pen ar gyfer aelodau ar gyfer 2026 gael eu cadw ar lefel 2025. Cymeradwyodd Cyngor mis Tachwedd yr argymhelliad, i'w gymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Gweinyddu a Chymorth – gan gynnwys yr Adroddiadau Yswiriant, Iechyd a Diogelwch a Diogelu

Sefydlwyd Pwyllgor Gweinyddu a Chymorth CGC (ASC) yn 2023 i fod yn Bwyllgor "hidlo" cyffredinol a fyddai'n cynrychioli agweddau amrywiol ar rôl CGC. Er bod y rolau gweithredol yn cael eu gadael ar lefel y Cyngor a'r Tîm Rheoli, mae ASC yn ystyried agweddau amrywiol ar ein gwaith ac, i ddechrau, mae'n gwneud argymhellion ynghylch opsiynau i'r Tîm Rheoli. Mae gan y Pwyllgor aelodau sy'n Ymddiriedolwyr ac eraill sy'n swyddogion. Bydd unrhyw swyddog sy'n cymryd rhan yn cael disgrifiad swydd. Mae cylch gorchwyl wedi'i lunio i'r Grŵp. Etholwyd John Bowles i'r Gadair ac mae Trish Calderbank ein Hysgrifennydd Aelodaeth wedi cytuno'n garedig i fod yn Ysgrifennydd Cofnodion.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd cwrdd 3 gwaith y flwyddyn yn unig, cafodd y Pwyllgor 5 cyfarfod ar-lein yn 2024. Bydd swmp y gwaith sydd ei angen yn pennu i raddau helaeth pa mor aml bydd yn cwrdd yn ystod y flwyddyn nesaf.

Cyllid yw un o'r pynciau yng nghylch gorchwyl ASC, ond y rôl yw cynorthwyo'r Trysorydd i ffurfio prosesau ac ati. Wedyn bydd y cyngor a ddatblygir yn cael ei roi i'r Pwyllgor Rheoli ac yna i'r Cyngor. Bydd adroddiad Cyllid llawn yn cael ei ddarparu mewn man arall yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol.

Mae Aelodaeth hefyd yn rhan o gylch gorchwyl ASC, a gwnaed rhai mân newidiadau i'r ffurflen gais aelodaeth er mwyn gwneud pethau'n gliriach i'r ymgeiswyr tro cyntaf. Mae'r adroddiad aelodaeth yn annibynnol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Diogelu

Mae gan CGC bolisi ac arweiniad ar Ddiogelu ar ei gwefan a byddwn yn cynghori cymdeithasau i nodi'r argymhellion hyn. Yn ystod 2024 ni chafodd unrhyw faterion Diogelu eu hadrodd neu eu nodi. Cafodd Polisi Diogelu CGC a'i Harweiniad i Gymdeithasau eu hadolygu ym mis Tachwedd 2024 ac mae'n dal i fod heb ei newid.

Yswiriant

O egluro ymhellach, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y diffiniadau o'r mathau o aelodau sydd gennym yn CGC, bu'n bosibl i ni sicrhau bod pawb sydd ag angen yswiriant yn ei gael am gost sy'n gyfartal i bawb.

Eleni gofynnnon ni am ddyfynbrisiau gan ddau frocer, Jensten, a oedd yn arfer bod yn frocer i ni tan y llynedd a'n brocer presennol Howden (a fu gydag Aston Lark), y cwmni sy'n frocer i'r BBKA. Gwrthododd Jensten roi dyfynbris eleni a rhoddodd Howden ddyfynbris wedi'i gefnogi gan AVIVA, ychydig yn fwy na'r llynedd yn unig, sef £1837.51 am ein Hatebolrwydd Cyhoeddus a Chynnyrch. Hefyd, cafodd yr yswiriant i aelodau'r Pwyllgor Cymdeithasau a'r Ymddiriedolwyr ei adnewyddu gyda'r un cwmni â'r llynedd.

Ond, fel y nodais y llynedd mai dim ond "Cynhyrchu a darparu cynhyrchion cynradd cychod" mae ein hyswiriant Atebolrwydd Cynnyrch yn ei gynnwys ac nid cynhyrchion sydd â chynhyrchion nad ydyn nhw'n rhan o gychod wedi'u hychwanegu fel rhai deunyddiau caboli, balmau, ac elïau. Mae'r arweiniad a gyhoeddwyd y llynedd yn dal yr un fath. Y cyngor gorau i unrhyw un sy'n cynhyrchu cynhyrchion fel hyn yw chwilio am yswiriant arall.

Yr unig newid arall fu cytundeb i yswirio aelodau am weithgareddau sy'n gysylltiedig ag olrhain nythod y Cacwn Asia, ond nid, hyd yma, â'u dinistrio nhw.

Iechyd a Diogelwch

Oherwydd amgylchiadau, fuodd hi ddim yn bosibl i John Pilgrim, ein Swyddog Iechyd a Diogelwch, ddarparu adroddiad llawn.

Er mwyn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd y llynedd:

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi adolygu ein Polisi Iechyd a Diogelwch ac wedi cynghori bod ein Haelod-Gymdeithasau'n gwneud y canlynol:

a. Cynhyrchu dogfen debyg

b. Enwebu aelod o'r Pwyllgor i fod yn gyfrifol am sicrhau bod asesiadau risg priodol yn cael eu cynnal ac unrhyw gamau angenrheidiol yn cael eu cymryd yn unol â'r awgrymiadau a wnaed yn "Asesiadau Risg – Canllaw syml" sydd ar ein gwefan.

Hyd yn hyn dydy pob Cymdeithas ddim wedi cynhyrchu tystiolaeth o eu bod yn cydymffurfio â'r arweiniad hwn sydd wedi'i fwriadu'n dda.

Bydd peidio â chymryd camau i nodi risgiau a sicrhau bod y rhai sydd angen gwybod beth a ddisgwylir ganddynt yn golygu na ddangosir tystiolaeth o'r ddyletswydd gofal sy'n ofynnol. Byddwn i'n awgrymu, lle nad yw'r canllawiau sylfaenol hyn yn cael eu dilyn, fod hyn yn dangos amarch tuag at ddiogelwch ac iechyd y cyhoedd ac aelodau, yn enwedig aelodau newydd y gallan nhw fod yn anymwybodol o'r risgiau y maen nhw'n eu hwynebu.

Nid adroddwyd am unrhyw Ddigwyddiadau o ran Iechyd a Diogelwch yn 2024.

Dysgu a Datblygu (L&D) – yn cynnwys Adroddiad yr Ysgrifennydd Arholiadau

Cyfarfodydd

Daliodd yr is-bwyllgor Dysgu a Datblygu ati i gynnal cyfarfodydd rhithwir chwarterol rheolaidd trwy gydol 2024.

Bu nifer o newidiadau eleni i aelodaeth yr is-bwyllgor. Mae'r cadeirydd, Caroline Mullinex, ar absenoldeb tosturiol o bob rôl CGC ers mis Mehefin 2024 ac rydyn ni'n ddiolchgar i Paul Pearce sydd wedi camu i rôl y cadeirydd. Ymddeolodd Karen Pratt o rôl ysgrifennydd Dysgu a Datblygu yn nechrau mis Mawrth 2024. Hyd yma, dydyn ni ddim wedi dod o hyd i unrhyw un i ymgymryd â'r rôl hon y mae Jenny Shaw yn ei gwneud ar hyn o bryd. Rydyn ni'n croesawu Sue Taylor a benodwyd i swydd y Swyddog Ysgolion ym mis Mawrth 2024 a Ceri Joyner a fydd yn dod yn Ysgrifennydd Arholiadau yn 2025 pan fydd Liz Childerley yn gorffen gwneud y swydd. Disgwylir y bydd y trosglwyddo'n ddiraffferth.

Mae'r pwyllgor Dysgu a Datblygu wedi parhau i weithio gyda'r Pwyllgorau Golygyddol a Digwyddiadau i roi cynnwys i'r cylchgrawn a mewnbwn i Raglen Cynulliad y Gwanwyn.

Diolchwn i bawb sy'n rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i ddatblygu a chyflwyno cyfleoedd dysgu i wenywyr yng Nghymru a thu hwnt.

Arholiadau ac Aseidiadau

Llwyddodd 24 o aelodau i basio Aseiad Sylfaenol CGC yn 2024, llawer â chlod ac ychydig â rhagoriaeth.

Llwyddodd 14 o aelodau iau i basio Aseiad Iau CGC yn 2024 ac mae'r arweiniad i aseswyr ar gyfer y dyfarniad hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd mewn pryd i aseidiadau 2025.

Er mwyn hwyluso'r rôl o benodi aseswyr a threfnu aseidiadau, cytunwyd, o 2025, y byddai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i sefyll Aseidiadau Sylfaenol neu Iau CGC yn cael ei wneud yn gynharach o 1 Mai i 1 Ebrill.

Bu 4 aelod CGC yn llwyddiannus wrth ennill Tystysgrif Iechyd Gwenyn (BHC) BBKA yn 2024. Cafodd digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr Iechyd Gwenyn BBKA a oedd i fod i ddigwydd yn 2024 eu gohirio tan 2025 ac mae rhai aelodau CGC wedi sicrhau lleoedd ar y digwyddiadau a aildrefnwyd er mwyn gallu cefnogi'r gwaith o baratoi ymgeiswyr i sefyll y Dystysgrif Iechyd Gwenyn. Os bydd nifer aelodau CGC sy'n sefyll yr aseiad hwn yn cynyddu yn y dyfodol, mae'n debygol y byddai cael rhagor o aseswyr yng Nghymru yn ddefnyddiol.

O ran y modiwlau, unwaith eto cafodd aelodau CGC rai canlyniadau da yn 2024. Llwyddodd 7 ym mis Mawrth gyda 3 ar lefel clod. Ym mis Tachwedd cafwyd llwyddiannau gyda 7 modiwl hefyd – 2 gyda chlod a 3 gyda rhagoriaeth. Dyfarnwyd y Dystysgrif Ganolradd i 2 aelod CGC yn 2024.

Darparon ni 1 lleoliad arholiad ym mis Mawrth a mis Tachwedd i ymgeiswyr nad oedden nhw'n dymuno sefyll arholiadau'r modiwl ar-lein ac rydyn ni wedi parhau i gefnogi aelodau CGC sy'n sefyll arholiadau ac aseidiadau BBKA trwy dalu ffioedd aelodaeth arholiadau drostyn nhw.

Rydyn ni'n llongyfarch pob un o'r ymgeiswyr llwyddiannus ac yn diolch i bawb sydd wedi helpu i hwyluso'r arholiadau a'r aseidiadau hyn i'n haelodau.

Yn hydref 2024 dechreuodd y BBKA drafod â CGC er mwyn adolygu sut mae aelodaeth arholiadau BBKA yn cael ei darparu, sydd wedi galluogi aelodau CGC i sefyll modiwlau ac aseidiadau BBKA heb fod rhaid iddyn nhw fod yn aelodau BBKA yn barod. Mae'r trafodaethau i gael darpariaeth yn lle aelodaeth arholiadau BBKA yn parhau.

Gweminarau

Digwyddodd 6 gweminar byw arall yn 2024 ar amrywiaeth o bynciau, gan ddod â chyfanswm gweminarau CGC a gyflwynwyd bellach i 49. Ers i ni ddechrau'r gyfres gweminarau yn 2020, mae tua 10,000 wedi cofrestru i'w dilyn. Fel arfer, rydyn ni'n gallu rhoi dolen i unrhyw un sydd wedi cofrestru

er mwyn gwyllo ar “dal i fyny” am gyfnod cyfyngedig fel nad oes angen i unrhyw un golli allan oherwydd gwrthdaro yn y dyddiadur neu oherwydd cysylltedd gwael.

Rydyn ni’n dal i fod yn hynod ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno yn ein gweminarau, ac i bawb sydd wedi’u cefnogi nhw, o fewn CGC a thu hwnt.

Ysgolion

Mae’r gwaith yn parhau o hyd i ddarparu adnoddau ar gyfer gwenynna mewn ysgolion. Mae arweiniad a gwybodaeth ar gael oddi wrth y Swyddog Ysgolion ar schools@wbka.com

Arian Grant Wax Chandler

2024 oedd blwyddyn olaf cyfnod y cyllid grant 3 blynedd a, gyda chymorth uniongyrchol y cyllid hwn, llwyddon ni gynnal/cefnogi’r digwyddiadau canlynol i aelodau CGC: -

- a) Gweithdai’r Cynulliad – Dangos Mêl a Dechrau arni, wedi’u hanelu at wenywyr sy’n dechrau.
- b) 3 x Gweithdy Microsgopeg (yn cynnwys Anatomeg a Dyrannu ac Adnabod Paill)
- c) Gweithdy ar Fotaneg.

Mae’r adroddiad adborth blynyddol olaf i’r Worshipful Company of Wax Chandlers yn cael ei baratoi a bydd hwn yn cael ei gyhoeddi mewn rhifyn o *Gwenynwyr Cymru* yn ystod 2025.

Unwaith eto, rydyn ni’n diolch i bawb sydd wedi helpu i gyflwyno a hwyluso’r digwyddiadau hyn ac yn ategu ein diolch i’r Wax Chandlers y mae eu cyllid hael wedi gwneud y rhaglen hon yn bosibl.

Llyfrynnau

Dechreuon ni weld a fyddai hi’n bosibl cyhoeddi llyfryn newydd gan CGC yn ystod 2023 ond yn anffodus, bu’n rhaid gohirio’r gwaith ar hyn ond bydd yn cael ei barhau yn 2025.

Pwyllgor Digwyddiadau

Eleni cynhaliwyd Cynulliad y Gwanwyn ar 23 Mawrth. Roedd ychydig yn llai o fynychwyr o gymharu â blynyddoedd blaenorol, 379. Roedd 13 stondin Fasnach, a 5 stondin o ddiddordeb cyffredinol. Hefyd cynhaliwyd 2 weithdy yn ystod y dydd, un yn cael ei redeg gan Lynfa Davies ar ‘Ble dwi’n dechrau’, a’r llall ‘Dangos Mêl’ wedi’i redeg gan Paul Boyle. Cefnogodd 22 o stiwardiaid y gwaith o redeg y sioe ar yr y diwrnod yn ogystal â’r aelodau a helpodd i osod popeth ar y dydd Gwener. Eleni eto, defnyddion ni Sum Up ar gyfer taliadau ymlaen llaw ac ar y drws, felly roedd yr aelodau’n gallu defnyddio cerdyn credyd neu ddebyd i dalu.

Yn ystod Gŵyl y Gwanwyn, 18/19 Mai, cefnogodd 13 aelod i stiwardio’r stondin; rhannon ni’r stondin gyda tîm SBI. Helpodd aelodau o’r tîm digwyddiadau, Martin Anderson, Alan Burford, Vicky Davies, Jill a Graham Wheeler, i osod y stondin a’i thynnu i lawr. Bu’r stondin yn boblogaidd gan aelodau’r cyhoedd a gwenynwyr, a chodwyd £30 i Bees Abroad wrth rollo canhwylau. Darparodd Alan gwch arsylwi wedi’i fenthyg oddi wrth wenywyr lleol. Erbyn hyn mae CGC wedi prynu ei chwch arsylwi ei hun.

Yn ystod y Sioe Frenhinol o 22 i 25 Gorffennaf, roedden ni yn ôl yn Neuadd De Morgannwg. Helpodd 18 aelod i stiwardio’r stondin dros y pedwar diwrnod; rhannon ni’r stondin gyda tîm SBI. Mae’n rhaid diolch i aelodau canlynol y tîm digwyddiadau a helpodd o ran gosod a rhedeg y stondin yn llwyddiannus. Martin Anderson, Alan Burford, Vicky Davies, Jill a Graham Wheeler.

Mae'r gwaith i gynllunio Cynulliad Gwanwyn 2025 ar y gweill gyda masnachwyr a phedwar siaradwr wedi'u trefnu: Anerchiad agoriadol Meistr Wax Chandler, Lynda Marston-Weston.

Yr Athro Emeritws Stephen Martin (Prifysgol Salford, Manceinion, y DU): Gwyddor ymwrthedd varroa (Wedi'i noddi gan BDI)

Martin Bencsik: Dirgryniadau mewn cwch

Stephen Fleming: Hud a dirgelwch yr ardaloedd lle mae gwenyn gwryw yn ymgasglu

Christine Coulsting: Archwilio cychod

Mae'r tîm wedi cyfarfod dair gwaith yn ystod y flwyddyn ac mae Alan Burford, fel y prif ymddiriedolwr, wedi mynychu cyfarfod o Bwyllgor Sioe Fêl Genedlaethol Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru.

Y Pwyllgor Golygyddol – gan gynnwys Adroddiad y Golygydd.

Mae'r pwyllgor Golygyddol yn cwrdd yn rhithwir cyn pob rhifyn sydd i ddod o *Gwenynwyr Cymru* er mwyn edrych dros y cylchgrawn drafft, ac i gynllunio pa ddeunydd sydd ei angen neu sydd wedi cael ei dderbyn ar gyfer y rhifyn canlynol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Mawrth, Ebrill, Mehefin, Hydref a Rhagfyr.

Mae Vicky Davies o Lŷn ac Eifionydd, yr Ymddiriedolwr Selwyn Runnett a'r Swyddog Ysgolion newydd, Sue Taylor, wedi'u croesawu i'r tîm.

Adolygodd y tîm y Cylch Gorchwyl yn ystod yr haf a hefyd cytunon nhw i godi'r ffioedd hysbysebu 10%, gyda gostyngiad yn y disgownt sy'n cael ei roi i hysbysebion ym mhob un o'r 4 rhifyn o 15 i 10%. Mae'r tîm yn rhagweld y gall fod gostyngiad yn yr incwm hysbysebu o ganlyniad i benderfyniad Cyngor CGC i atal hysbysebion i werthu gwenyn yn y cylchgrawn.

Hefyd penderfynwyd tocio'r gystadleuaeth ffotograffiaeth i fod yn un flynyddol. Mae clawr blaen pob rhifyn am y flwyddyn yn dangos un o'r 4 cynnig gorau.

Golygyddol

Rydyn ni wedi cynhyrchu tri rhifyn 48 tudalen o'r cylchgrawn eleni ac un (rhifyn y gaeaf) gyda 32 tudalen gydag amrywiaeth dda o erthyglau ymarferol, technegol a difyr, ac adolygiadau llyfrau. Rydyn ni wedi cefnogi Cynulliad Gwanwyn CGC drwy hysbysebu a chynhyrchu erthyglau gan y siaradwyr. Rydyn ni wedi cael Swyddog Cydlynu ag Ysgolion newydd, sef Sue Taylor a fydd yn rhoi bywyd newydd i'r tudalennau gwenynwyr ifanc ac mae John Bowles yn cyfrannu diweddariad rheolaidd ynghylch y sefyllfa o ran Cacynen Felyngoes Asia – cefnogwyd yr olaf gan erthygl ar gylchred bywyd y gacynen wedi'i godi o BBKA News. Rydyn ni'n ddiolchgar i BBKA News am ganiatâd i ddefnyddio nifer o erthyglau ar bynciau fel mêl amrwd a chyfres lawn gwybodaeth Joyce Nesbit am grwybrau ac adrannau wedi'u torri. Cefnogwyd y penderfyniad i beidio â chynnwys hysbysebion i werthu gwenyn gan erthygl gan Lynfa Davies ynghylch prynu a dod o hyd i wenyn. Hefyd rydyn ni wedi cefnogi'r elusennau Bees Abroad a Bees for Development gydag adroddiadau o'u gwaith. Denodd y gystadleuaeth ffotograffiaeth rai cyfraniadau da o nifer cyfyngedig o ymgeiswyr, a symudon ni i gael cystadleuaeth flynyddol, nad yw wedi codi'r diddordeb gan ddarllenwyr eto. Diolch i Vita Bee Health am noddi'r gystadleuaeth. Yn olaf, diolch i'r Tîm Golygyddol am eu cefnogaeth ac i Vicky Davies am ymgymryd â rôl Golygydd Cynorthwyol ac am ei gwybodaeth arbenigol.

IMYB (Cyfarfod Rhyngwladol Gwenynwyr Ifanc/International Meeting of Young Beekeepers)

Cynhaliwyd cyfarfod IMYB yn 2024 yn Dubai ym mis Rhagfyr 2024. Roedd teithio i'r digwyddiad yn ddrud iawn a chytunwyd y byddai'n rhaid i unrhyw fynychwyr o Gymru dalu drostyn nhw eu hunain. Gofynnwyd i'r Aelod-Gymdeithasau a oedd ganddyn nhw unrhyw aelodau iau a fyddai â diddordeb mewn mynychu'r digwyddiad a doedd dim unrhyw ymatebion cadarnhaol. Aeth dim tîm o CGC i IMYB 2024. Cynhelir cyfarfod nesaf IMYB yn 2026 mewn lleoliad nad yw wedi'i gyhoeddi eto.

Gwefeistr

Cawson ni Wefeistr newydd yn ystod yr haf: sylwodd neb ar y newid, sy'n ddelfrydol. Mae gwefan y Gymdeithas yn drefnus ac mae'n rhaid cydnabod gwaith deiliaid cynharach y swydd.

Mae ystadegau mynediad manwl yn cael eu casglu'n rheolaidd ac mae croeso i bawb eu cael oddi wrth y Gwefeistr. Mae'r defnydd yn sefydlog r y cyfan – yn fisol gallen ni ddisgwyl 5000-6000 o ymweliadau oddi wrth 4000 o bobl wahanol. Mae mwyafrif llethol defnyddwyr y wefan o'r DU, ac mae'r rhan fwyaf o'r ymweliadau'n fyr iawn (llai na 1 funud). Mae amrywiaeth o gyhoeddiadau wedi bod yn ddefnyddiol i bobl eu lawrlwytho, yr amlaf yw "Rheoli Heidiau".

Ychydig iawn y mae cynnwys y wefan wedi newid, ac eithrio diweddariadau rheolaidd o bryd i'w gilydd fel y cylchgrawn. Bydd croeso i unrhyw awgrymiadau am bethau ychwanegol neu newidiadau. Felly hefyd, mae'n bosibl postio eitemau sy'n ddiddorol o ran newyddion yn gyflym iawn.

Hefyd, mae'r gwefeistr yn gweinyddu cyfeiriadau e-bost CGC – eleni bu sawl ymgais i we-rwydo (*phishing*) rhai o'r rhain ond mae modd defnyddio synnwyr cyffredin bron bob amser i'w baglu nhw. Serch hynny, rydyn ni'n atgoffa pawb i drin negeseuon electronig anarferol yn ofalus: byddai'n llawer iawn gwell gennym gael neges am rywbeth sy'n ddiniwed yn y pen draw na bod unigolion di-fai yn cael eu denu i sgam.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Ar ôl trafodaeth hir, penderfynodd y Tîm Rheoli y dylai CGC benodi Swyddog Rhywogaethau Estron Goresgynnol o blith ei Hymddiriedolwyr er mwyn arwain ar weithgaredd y Gacynen Felyngoes (Asia) yng Nghymru. I ddechrau, roedd y drafodaeth am benodi arweiniad ar Gacynen Asia, ond gan fod chwilen fach y cwch yn bresennol yn Ewrop a Tropilaelaps yng Ngogledd Ewrop, penderfynwyd ehangu'r swydd / ei gwneud yn addas i'r dyfodol. Bydd Wally Shaw yn dal i arwain ar bolisi ac arweiniad ar Varroa.

